#### REPORT BY THE CHIEF EXECUTIVE

SUBJECT: LETTER OUTLINING NATIONAL PARK AUTHORITY PRIORITIES 2015-2016 FROM THE MINISTER FOR NATURAL RESOURCES OF THE WELSH GOVERNMENT.

## Purpose of Report

To inform Members of the priorities for the Authority identified by the Welsh Government.

### Introduction

The Chairman of the Authority recently received a letter from the Minister for Natural Resources outlining the priorities for National Park Authorities for 2015-2016 as identified by the Welsh Government. A copy of the letter is included as Annex A.

## Financial

No financial information is provided. The Authority is waiting for final confirmation of its budget for 2015-2016.

# Risk & Compliance Considerations

With the Authority receiving the majority of its funding from the Welsh Government, the need to ensure that its work programme reflects these priorities is important.

# Human Rights/Equality Issues

No issues

Biodiversity Implications/Sustainability Appraisal No issues

Welsh Language Statement

No issues

## **Recommendation**

Members are invited to note the report and attached letter.

Carl Sargeant AC / AM
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources



Welsh Government

Y Cynghorydd Michael James Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Parc Llanion Doc Penfro Sir Benfro

**7** ()Mai 2015

Annwyl Michael

**SA72 6DU** 

#### Blaenoriaethau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol 2015-16

Pwrpas y llythyr hwn yw nodi'r meysydd blaenoriaeth y byddai Gweinidogion Cymru'n hoffi i chi ganolbwyntio arnynt yn y flwyddyn sydd i ddod.

Yn fy marn i, dylai Parciau Cenedlaethol Cymru fod yn esiampl dda i eraill o gyrff sy'n rheoli adnoddau naturiol ac yn cefnogi datblygu cynaliadwy drwy greu tirweddau byw, gweithredol ag economïau gwledig llewyrchus, ecosystemau ffyniannus a bioamrywiaeth a darparu cyfleoedd hamddena amrywiol. Fel Awdurdod i'r ardaloedd pwysig hyn rwy'n disgwyl i chi ddarparu'r arweiniad a'r arbenigedd angenrheidiol, gan weithredu ac ysgogi newid. Gallwch wneud cyfraniad sylweddol i'r agenda twf gwyrdd yn eich gwaith.

Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi pwyslais cryf ar drechu tlodi yng Nghymru. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng yr ymrwymiad cenedlaethol i gynaliadwyedd, lleihau tlodi, mynd at wraidd anghydraddoldeb a'r hyn sy'n ei achosi, a phwrpas ac uchelgais y parciau cenedlaethol. Rwy'n awyddus i weld awdurdodau parciau'n gweithio gydag eraill er mwyn lleihau'r bylchau sy'n bodoli rhwng teuluoedd sy'n byw mewn cartrefi incwm isel a'u cymheiriaid mwy ffodus o ran iechyd, addysg, sgiliau a chanlyniadau economaidd. Mae awdurdodau'r parciau eisoes yn gwneud llawer i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ond credaf y gellid gwneud mwy. Rwy'n disgwyl i chi sicrhau bod cymunedau'n ymwneud cymaint ag sy'n bosibl â'r gwaith o ddatblygu cynllun rheoli'r Parc a'i adolygu, ac y bydd eich gwasanaethau'n canolbwyntio ar ymgysylltu a datblygu cyfleoedd i gymunedau difreintiedig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i edrych am ffyrdd o sicrhau cyflog byw i bob gweithiwr yng Nghymru. Rwy'n disgwyl i Awdurdod y Parc gyfrannu tuag at hyn drwy weithio tuag at achrediad fel Cyflogwr Cyflog Byw.

Mae'r "Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru" yn cynnig cyfle i ddiweddaru a rhoi pwyslais newydd ar rôl y tirweddau dynodedig i gyd-fynd â'r heriau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol rydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Rwyf eisoes wedi addo wrthych ein bod fel Llywodraeth yn dymuno gweithio mewn partneriaeth â phob

awdurdod parc er mwyn ystyried ac ymateb i'r argymhellion a fydd yn cael eu gwneud gan yr Adolygiad ddiwedd mis Gorffennaf. Credaf fod pob un ohonom wedi derbyn yn barod y byddai rhyw fath o ddiwygio'n ddymunol. Bydd angen i ni ystyried gyda'n gilydd pa fath o ddiwygiadau fydd y rhain a beth yw'r ffordd orau o'u cyflwyno. Â'r her hon mewn golwg, rwyf wedi gofyn i swyddogion ddatblygu rhaglen strwythuredig i gefnogi camau cydweithredol ar draws yr holl dirweddau dynodedig a fydd yn canolbwyntio ar y prif feysydd sy'n deillio o'r Adolygiad, a byddaf eisiau i'ch Awdurdod chi ymwneud yn llawn â'r rhaglen hon.

Eleni mae nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth Gymreig sy'n cael effaith uniongyrchol ar weithgareddau Awdurdod y Parc. Rwy'n falch iawn eich bod wedi ymrwymo i weithredu ar sail "egwyddor datblygu cynaliadwy" yn gynnar a gweithio tuag at yr amcanion lles sydd wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015). Cyn bo hir byddaf yn cyflwyno Bil yr Amgylchedd (Cymru) i gyflwyno trefniadau statudol newydd ar gyfer cynllunio a rheoli cyfoeth naturiol Cymru, yn ogystal â thargedau newid hinsawdd statudol pwysig. Bydd y gofynion newydd yn ategu rôl Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ac yn sicrhau bod modd cyflwyno prosesau mwy effeithiol a chydweithredol a fydd yn golygu bod modd creu manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd parhaol i'n cymunedau. Mae gennych gyfle i gynorthwyo Cyfoeth Naturiol Cymru i droi'r gofynion hyn yn weithredu ymarferol.

Mae Bil Cynllunio (Cymru) yn mynd rhagddo'n dda a byddwch yn ymwybodol ei fod yn cynnwys darpariaethau a fyddai, pe bai'r Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno, yn caniatáu i mi gyflwyno newidiadau i'r ffordd y mae penderfyniadau cynllunio'n cael eu gwneud mewn parciau cenedlaethol. Yng nghyd-destun fy ymrwymiad i wella cynllunio yng Nghymru a'r Adolygiad o Dirweddau Dynodedig, rwy'n credu'n gryf na ddylai parciau cenedlaethol gael eu gadael ar ôl. Mae gwasanaeth cynllunio effeithiol, tryloyw, cyson a galluogol yn hollbwysig er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol. Mae hyn yn cynnwys diogelu tirwedd a'r amgylchedd naturiol. Disgwyliaf i chi ddal i sicrhau gwelliannau yn eich gwasanaethau cynllunio, gan gynnwys penderfynu ynglŷn â cheisiadau cynllunio o fewn y graddfeydd amser penodedig, lleihau nifer y ceisiadau sy'n disgwyl am benderfyniad, a gweithredu mewn cysylltiad ag achosion cynllunio lle mae angen camau gorfodi.

Un o brif ymrwymiadau Llywodraeth Cymru yn ystod y tymor Cynulliad hwn yw gwella hawliau tramwy cyhoeddus a sicrhau mwy o gyfleoedd mynediad, yn enwedig i blant a theuluoedd. Disgwyliaf y bydd Awdurdodau'r Parc yn parhau â'u gwaith gyda'r awdurdodau lleol sydd o fewn eu ffiniau er mwyn canfod ffyrdd o gynyddu mynediad i'r Parc Cenedlaethol i bob sector o'r gymdeithas gan wneud cysylltiadau â sefydliadau y tu allan i'r Parciau er mwyn cyflawni'r amcan hwn. Mae fy nghyfaill, y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, wedi cyhoeddi mai 2016 fydd Blwyddyn Antur yng Nghymru ac mae hyn yn gyfle i'r Parciau arddangos y gweithgareddau awyr agored amrywiol sydd ar gael, a dangos sut y dylai cyrff cyhoeddus gynllunio ar gyfer gweithgareddau o'r fath a'u rheoli yn y ffordd orau posibl. Gan adeiladu ar eich arbenigedd yma, rwy'n awyddus i weld Awdurdodau'r Parciau'n ymwneud yn gadarnhaol â'n gwaith er mwyn datblygu syniadau a fydd yn gwella cyfleoedd ar gyfer adloniant awyr agored cyfrifol drwy ddulliau deddfwriaethol a dulliau eraill pan fyddaf yn cyhoeddi llythyr ymgynghori yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Mae gennym lawer o waith i'w wneud ond gwn fod gan eich sefydliad y gallu a'r sgiliau i'n helpu i gyflawni'n hamcanion heriol ac rwy'n edrych ymlaen i drafod eich cynnydd yn y meysydd hyn y tro nesaf y byddwn yn cyfarfod.

Yn gywir

**Carl Sargeant** 

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol